**FFURFLEN ASESU EFFAITH AR GYDRADDOLDEB SY'N CYNNWYS DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL**

(Wedi'i diweddaru: Mawrth 2021)

Cyfeiriwch at y canllawiau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb cyfredol wrth gwblhau'r ddogfen yma. Pe hoffech chi gael arweiniad pellach, ffoniwch y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant ar 01443 444529.

Rhaid cwblhau asesiad effaith ar gydraddoldeb ar ddechrau unrhyw gynnig i sicrhau bod tystiolaeth gadarn yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau. Bydd y ddogfen yma'n helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus, effeithiol a theg wrth sicrhau cydymffurfiad ag ystod o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Dyletswydd economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd y ddogfen yma hefyd yn cyfrannu at ein dyletswyddau i greu Cymru sy’n fwy cyfartal sy'n rhan annatod o:

- Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae canllawiau 'Cymru sy’n Fwy Cyfartal - Mapio'r Dyletswyddau' yn tynnu sylw at aliniad ein dyletswyddau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth uchod.

**ADRAN 1 - MANYLION Y CYNNIG**

Swyddog Arweiniol: Lisa Howell.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth: Andrea Richards.

Maes Gwasanaeth: Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant - Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif

Dyddiad: 25/09/2023 a 08/11/2023.

1. a) Beth ydych chi'n ei asesu o ran effaith?

| Strategaeth/Cynllun | Ail-Fodelu Gwasanaeth / Cau Gwasanaeth | Polisi/Gweithdrefn | Arfer | Gwybodaeth/Datganiad Swydd |
|---|---|---|---|---|
| ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

1.b) Beth yw enw'r cynnig?

Cau Ysgol Gynradd y Rhigos a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun.

1.c) Nodwch drosolwg o'r cynnig gan ddarparu unrhyw ddolenni ategol i adroddiadau neu ddogfennau.

Dyma gynnig i gau Ysgol Gynradd y Rhigos a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun. Bydd y cynnig yn cael ei gyflawni drwy ymestyn dalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Gynradd y Rhigos. Bydd disgyblion presennol a dyfodol Ysgol Gynradd y Rhigos sydd mewn cyflwr gwael ac sy'n cynnwys tri dosbarth grŵp blwyddyn cymysg, yn mynychu Ysgol Gynradd Hirwaun sydd ag adeilad ysgol newydd sy'n addas ar gyfer addysg yr 21ain ganrif. Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn darparu amgylchedd dysgu hygyrch, gan gynnwys mannau dysgu disglair, agored a hyblyg i wneud y mwyaf o'r potensial ar gyfer dysgu.

1.d) Amlinellwch ble mae deddfwriaeth neu sbardunau eraill fel cod ymarfer yn effeithio ar gyflawni'r cynnig yma.

Rhaid cydymffurfio â’r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (2[il] Argraffiad) (011/2018) a bod yn destun proses ymgynghori statudol.

1.e) Amlinellwch pwy mae'r cynnig yma'n effeithio arno:

- Defnyddwyr Gwasanaeth ☒
- Gweithwyr ☒
- Y Gymuned Ehangach ☒

**ADRAN 2 - PRAWF SGRINIO - A OES ANGEN ASESIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN?**

Caiff sgrinio ei defnyddio i benderfynu a yw'r fenter yn cael effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar grwpiau gwarchodedig. Lle mae effeithiau negyddol yn cael eu nodi ar gyfer grwpiau gwarchodedig rhaid cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn.

Rhowch gynifer o fanylion â phosibl ynglŷn â sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y grwpiau canlynol. Efallai na fydd hyn yn negyddol o reidrwydd, ond gallai effeithio ar grŵp sydd â nodwedd unigol mewn ffordd benodol.

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn gorfodi'r Cyngor i roi "sylw dyledus" i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon; hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Rhowch ddull croestoriadol ar waith wrth gydnabod bod modd i unigolyn feddu ar fwy nag un nodwedd warchodedig.

| **<u>Dysgu beth yw nodweddion gwarchodedig;</u>** | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Oedran** *(Grwpiau oedran penodol h.y. pobl ifainc neu bobl hŷn)* | Positive | Pobl Ifainc (h.y. Pobl Oed Ysgol)<br><br>Ar hyn o bryd mae 59 o ddisgyblion oedran statudol yn mynychu Ysgol Gynradd y Rhigos ac mae 233 o | Cyflwyno'n llwyddiannus adeiladau ysgol newydd yn flaenorol ledled y Fwrdeistref Sirol a'u heffaith gadarnhaol ar yr ysgol a chymunedau ehangach. |

| **<u>Dysgu beth yw nodweddion gwarchodedig;</u>** | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | ddisgyblion oedran ysgol statudol yn mynychu Ysgol Gynradd Hirwaun.<br><br>Bydd trosglwyddo disgyblion o'r hen adeiladau ysgol adfeiliedig yn Ysgol Gynradd y Rhigos i Ysgol Gynradd Hirwaun yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gael eu haddysgu mewn amgylchedd newydd sy'n addas ar gyfer dysgu ac addysgu yn yr 21ain ganrif.<br><br>Bydd trosglwyddo disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos i'r adeilad ysgol newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun, gydag ystafelloedd dosbarth modern yn:<br><br>- Darparu amgylcheddau dysgu cyfforddus a deniadol ar gyfer plant a addysgwyd yn flaenorol mewn adeiladau sydd mewn cyflwr gwael.<br>- Cynnig cyfleusterau sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif i alluogi pob | Er enghraifft, mae cyfleusterau cymunedol yn cael eu defnyddio'n aml iawn mewn llawer o'n hysgolion newydd gan gynnwys Ysgol Gyfun Y Pant ac Ysgol Gymuned Tonyrefail, ac mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn cynnig sawl math o gymorth i deuluoedd yn llwyddiannus, fel cymorth rheoli arian a chostau byw, sesiynau cymorth rhianta, sesiynau lles a gwybodaeth am glybiau cynilo. Mae Ysgol Gynradd Hirwaun hefyd yn cymryd rhan mewn banc bwyd wythnosol ar gyfer y gymuned a dosbarthiadau bwyd wythnosol 'rhy dda i'w gwastraffu'.<br><br>Os cytunir ar y cynnig hwn, bydd achlysuron pontio yn cael eu darparu i ddisgyblion a rhieni/gwarcheidwaid. |

| <u>**Dysgu beth yw nodweddion gwarchodedig;**</u> | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | disgybl yn y gymuned leol i fanteisio ar ddysgu a gweithgareddau y mae modd iddyn nhw eu helpu i ddatblygu perthnasau mewn cymunedau.<br>- Galluogi mynediad hawdd at wasanaethau i wella bywydau plant a'u teuluoedd.<br><br>Bydd bod yn rhan o ysgol fwy sy'n golygu bod disgyblion yn fwy tebygol o gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau gyda'u grŵp oedran eu hunain yn bennaf, gan alluogi athrawon i gynnig cwricwlwm ehangach a mwy amrywiol i ddisgyblion i gefnogi pob disgybl, gan gynnwys y lleiaf galluog a'r mwyaf galluog. Dydy hyn ddim yn wir ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd y Rhigos, lle mai dim ond tri dosbarth sydd, pob un o grwpiau oedran cymysg.<br><br>Pobl Hŷn (h.y. Rhieni/Gwarcheidwaid a'r Gymuned Ehangach)<br>Bydd cyfle hefyd i'r gymuned ehangach ddefnyddio'r ysgol a'i | |

| <u>**Dysgu beth yw nodweddion gwarchodedig;**</u> | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | chyfleusterau chwaraeon a bydd pob aelod o'r gymuned ehangach (hen ac ifanc) yn cael y cyfle i elwa ohonyn nhw.<br><br>Dywedodd 4 (1.7%) o'r ymatebwyr y gallai'r cynnig effeithio arnynt oherwydd eu hoedran.<br><br>Efallai y bydd canfyddiad negyddol posibl gan y gallai'r plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd y Rhigos ar hyn o bryd fod yn nerfus ynghylch mynychu Ysgol Gynradd Hirwaun. Fodd bynnag, os cytunir ar y cynnig yma, bydd achlysuron pontio yn cael eu darparu i ddisgyblion a rhieni/gwarcheidwaid. | |
| **Anabledd**<br>*(pobl sydd ag anableddau gweladwy ac anweladwy neu gyflyrau iechyd tymor hir)* | Positive | Ar hyn o bryd, mae safle Ysgol Gynradd y Rhigos ac adeilad yr ysgol yn anhygyrch ac nid yw'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r safle newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac mae'n hygyrch i bawb, yn fewnol ac yn allanol. | Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Gynradd y Rhigos 17 o ddisgyblion ag ADY, a does dim anghenion corfforol gan yr un ohonyn nhw. Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun 12 o ddisgyblion ag ADY, ac mae gan 2 ohonyn nhw anghenion corfforol. |

| <u>**Dysgu beth yw nodweddion gwarchodedig;**</u> | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | Bydd mannau dysgu hyblyg a gofod calon yn yr ysgol yn darparu mannau tawelach a fydd o fudd i bob disgybl, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).<br><br>Dywedodd 7 (2.9%) o'r ymatebwyr y gallai'r cynnig effeithio arnynt oherwydd eu hanabledd. Roedd y sylwadau'n cynnwys pryderon ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig i'r rhai sy'n anghyfartal ac yn methu gyrru a'r effaith y gallai hyn ei chael pe bai angen casglu eu plentyn o'r ysgol. Yn anffodus, nid yw cost a gweithrediad trafnidiaeth gyhoeddus yr ardal o fewn cylch gwaith CBSRhCT i'w reoli.<br><br>Gan y bydd pob disgybl sy'n byw yn Rhigos yn cael y cyfle i ddefnyddio'r ddarpariaeth cludiant o'r cartref i'r | Darpariaeth adeiladau ysgol newydd yn flaenorol ledled y Fwrdeistref Sirol sy'n hygyrch i holl ddefnyddwyr yr adeilad.<br><br>Mae dyluniad yr holl ysgolion newydd yn ymgorffori hygyrchedd llwyr wrth wraidd y dyluniad, fel yn achos Ysgol Gynradd Hirwaun. |

| <u>**Dysgu beth yw nodweddion gwarchodedig;**</u> | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | ysgol rydym yn rhagweld y bydd nifer y teithiau sydd eu hangen ar drafnidiaeth gyhoeddus yn fach iawn. | |
| **Ailbennu Rhywedd** *(unrhyw un sydd â hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd yn wahanol i'r rhywedd a neilltuwyd iddo adeg ei enedigaeth gan gynnwys hunaniaethau anneuaidd)* | Positive | Bydd cyfleusterau toiledau niwtral o ran rhywedd (ystafelloedd ymolchi) ar gael yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn unol â Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999.<br><br>Mae Cyfrifiad 2021 yn darparu data ar hunaniaeth rhywedd. Yn RhCT, 93.69% yw canran yr unigolion sydd o'r un rhyw â'r hyn a gofrestrwyd ar enedigaeth, tra bod canran yr unigolion sy'n arddel hunaniaeth rhywedd sy'n wahanol i'r un a gofrestrwyd ar enedigaeth ond sydd heb hunaniaeth benodol yn 0.14%. Mae modd dadansoddi hunaniaeth rhywedd yn RhCT ymhellach fel a ganlyn:<br><br>- Menyw drawsryweddol - 0.07%.<br>- Dyn trawsryweddol - 0.07%.<br>- Anneuaidd - 0.05%. | Mae ymchwil sydd wedi'i gynnwys yn 'International Journal of Public Health' yn dangos bod ystafelloedd ymolchi ysgolion wedi'u nodi gan ddisgyblion sy'n amrywio o ran rhywioldeb a rhywedd (SGD) fel y mannau lleiaf diogel mewn ysgolion. Maen nhw'n safleoedd lle mae erledigaeth eiriol, gorfforol a rhywiol yn cael ei brofi. Drwy ddarparu cyfleusterau toiledau (ystafelloedd ymolchi) sy'n niwtral o ran rhywedd, mae'n bosibl y bydd ysgolion yn lleihau bwlio ac erledigaeth disgyblion SGD, yn enwedig y rheini sy'n drawsryweddol neu'n amrywio o ran rhywedd.<br><br>Darpariaeth adeiladau ysgol newydd yn flaenorol ledled y |

| <u>**Dysgu beth yw nodweddion gwarchodedig;**</u> | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | - Pob hunaniaeth rhywedd arall - 0.03%<br>- Heb ateb – 5.95%. | Fwrdeistref Sirol a chynnwys cyfleusterau toiled (ystafelloedd ymolchi) sy'n niwtral o ran rhywedd. |
| **Priodasau a Phartneriaethau Sifil**<br>*(pobl sy'n briod neu mewn partneriaethau sifil)* | Neutral | Does dim disgwyl i'r newidiadau arfaethedig effeithio ar y grŵp yma.<br><br>Er nad oes disgwyl y bydd effaith ar nodweddion sy'n ymwneud â Phriodas neu Bartneriaeth Sifil, bydd y cynnig yma'n cael ei fonitro'n rheolaidd. Os bydd effaith yn codi, byddwn ni'n mynd i'r afael ag anghenion, a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma ei ddiweddaru lle bo angen. | Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth**<br>*(Menywod sy'n feichiog / ar gyfnod mamolaeth)* | Positive | Mae'r cyfleusterau yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn cydymffurfio â gofynion cyfredol deddfwriaeth cynllunio a rheoli adeiladu, ac yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei gwneud yn hygyrch i bawb. Mae ganddo fynediad gwastad ac mae'n fwy cyfforddus o ran gwres gan ei bod hi'n haws rheoleiddio | Darpariaeth adeiladau ysgol newydd blaenorol ledled y Fwrdeistref Sirol a'u heffaith gadarnhaol ar staff, disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach gan eu bod nhw wedi eu hawyru'n naturiol a bod gyda nhw systemau gwresogi sy'n effeithlon o ran ynni. |

| **<u>Dysgu beth yw nodweddion gwarchodedig;</u>** | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | tymheredd mewnol. Mae trefniadau/cyfleusterau staffio cyfforddus ar gyfer Cynllunio, Paratoi ac Asesu a chyfleusterau gorffwys os oes angen trwy ystafell hylendid/meddygol bwrpasol. | |
| **Hil**<br>*(grwpiau ethnig neu o dras h.y. grwpiau'r lleiafrifoedd ethnig, Sipsiwn, Roma a Theithwyr)* | Neutral | Does dim disgwyl i'r newidiadau arfaethedig effeithio ar y grŵp yma.<br><br>Er nad oes disgwyl y bydd effaith ar nodweddion sy'n ymwneud â Hil, bydd y cynnig yma'n cael ei fonitro'n rheolaidd. Os bydd effaith yn codi, byddwn ni'n mynd i'r afael ag anghenion, a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma ei ddiweddaru lle bo angen. | Wrth edrych ar ddata ethnigrwydd, mae data CYBLD 2022 yn dangos bod 93.9% o ddisgyblion oedran ysgol statudol yn arddel hunaniaeth Wyn Prydeinig, roedd 5.9% wedi'u dosbarthu'n unrhyw gefndir ethnig arall tra bod 0.2% yn anhysbys.<br><br>Mae data CYBLD 2022 yn dangos fod gan Ysgol Gynradd Hirwaun 9 disgybl sydd ddim yn arddel hunaniaeth Wyn Prydeinig ac mae gan Ysgol Gynradd y Rhigos 1 disgybl sydd ddim yn arddel hunaniaeth Wyn |

| **<u>Dysgu beth yw nodweddion gwarchodedig;</u>** | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | | Prydeinig. |
| **Crefydd neu Gred**<br>*(pobl sydd â gwahanol grefyddau a chredoau athronyddol gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau)* | Neutral | Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn gwbl hygyrch ac yn ysgol gymunedol gwbl integredig. Mae ardal benodol wedi'i dylunio yn yr ysgol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau'n ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. Gallai hyn gynnwys grwpiau crefyddol cymunedol lleol. | Darpariaeth adeiladau ysgol newydd blaenorol ledled y Fwrdeistref Sirol a'u heffaith gadarnhaol ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff a'r gymuned ehangach. |
| **Rhyw**<br>*(Menywod a dynion, merched a bechgyn)* | Positive | Ysgol ar gyfer bechgyn a merched yn Rhondda Cynon Taf yw Ysgol Gynradd Hirwaun. Mae wedi’i hadeiladu yn unol â gofynion cyfredol deddfwriaeth cynllunio a rheoli adeiladu ac mae’n gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, a Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999.<br><br>Mae'n gyfforddus yn thermol ac yn hawdd rheoli’r tymheredd mewnol. Bydd hyn o fudd i staff â symptomau'r menopos trwy ddarparu amgylchedd mwy cyfforddus i weithio ynddo. | Darpariaeth adeiladau ysgol newydd blaenorol ledled y Fwrdeistref Sirol a'u heffaith gadarnhaol ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff a'r gymuned ehangach gan eu bod nhw wedi eu hawyru'n naturiol a bod gyda nhw systemau gwresogi sy'n effeithlon o ran ynni. |

| <u>**Dysgu beth yw nodweddion gwarchodedig;**</u> | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | Bydd cyfleusterau gorffwys hefyd ar gael os oes angen trwy ystafell hylendid / ystafell feddygol bwrpasol. | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol**<br>*(deurywiol, hoyw, lesbiaidd, heterorywiol)* | Neutral | Does dim disgwyl i'r newidiadau arfaethedig effeithio ar y grŵp yma.<br><br>Er nad oes disgwyl y bydd effaith ar nodweddion sy'n ymwneud â Chyfeiriadedd Rhywiol, bydd y cynnig yma'n cael ei fonitro'n rheolaidd. Os bydd effaith yn codi, byddwn ni'n mynd i'r afael ag anghenion, a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma ei ddiweddaru lle bo angen. | Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |

**Oherwydd ymrwymiadau'r Cyngor i ddarparu cyfleoedd i'r grwpiau canlynol o bobl, hoffen ni i chi ystyried yr effaith arnyn nhw:**

| | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Cymuned y Lluoedd Arfog**<br>*(unrhyw un sy'n gwasanaethu,* | Positive | Ar hyn o bryd does dim disgyblion yn Ysgol Gynradd Hirwaun nac Ysgol Gynradd y | Mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun y gallu i roi lleoliad i ragor o blant a fydd efallai yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *wedi gwasanaethu, aelodau o'r teulu a'r rhai sydd mewn profedigaeth)* | | Rhigos sy'n blant o gymuned y lluoedd arfog.<br><br>Mae capasiti ychwanegol yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn sicrhau bod digon o leoedd ar gyfer teuluoedd a fydd efallai yn symud i ardal Hirwaun neu Rhigos hanner ffordd drwy'r flwyddyn academaidd (oherwydd newid mewn amgylchiadau). | symud i ardal Hirwaun neu Rhigos hanner ffordd drwy'r flwyddyn academaidd (oherwydd newid mewn amgylchiadau). Mewn amgylchiadau o’r fath bydd plant a theuluoedd yn cael eu cefnogi gan Swyddog Cyswllt ysgolion rhanbarthol sy’n gweithio gyda phlant a theuluoedd cymuned y lluoedd arfog. |
| **Cynhalwyr**<br>*(Unrhyw un o unrhyw oedran sy'n darparu gofal di-dâl)* | Positive | Mae data o fis Medi 2022 yn dangos nad oedd unrhyw gynhalwyr ifainc yn mynychu Ysgol Gynradd Hirwaun ac roedd un cynhaliwr ifanc yn mynychu Ysgol Gynradd y Rhigos.<br><br>Bydd capasiti’r adeilad ysgol newydd yn Hirwaun yn sicrhau bod digon o leoedd ar gyfer teuluoedd a all symud i’r ardal hanner ffordd drwy flwyddyn academaidd. | Mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun y gallu i roi lleoliad i ragor o blant a fydd efallai yn symud i ardal Hirwaun neu Rhigos hanner ffordd drwy'r flwyddyn academaidd (oherwydd newid mewn amgylchiadau). Mewn amgylchiadau o'r fath bydd plant a theuluoedd yn cael eu cefnogi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gall amgylchedd dysgu newydd yr 21ain ganrif annog rhagor o rieni/gwarcheidwaid i ddewis eu hysgol ddalgylch yn hytrach nag ysgolion y tu allan i'w dalgylch, gan leihau amser, cost ac effeithiau amgylcheddol teithiau hirach. | |

Os yw'r prawf sgrinio cychwynnol wedi nodi effeithiau negyddol yna **rhaid** cynnal asesiad effaith ar gydraddoldeb llawn (adran 4). Serch hynny, os ydych chi'n penderfynu ar ôl cynnal prawf sgrinio nad yw'n berthnasol i chi gynnal asesiad effaith ar gydraddoldeb llawn, nodwch esboniad digonol isod:

Doedd dim effeithiau negyddol yn dod i'r amlwg ar gyfer unrhyw un o'r grwpiau nodweddion gwarchodedig. Bydd pob effaith ar grwpiau nodweddion gwarchodedig naill ai'n niwtral neu'n gadarnhaol.

Ydych chi'n fodlon bod gyda chi ddigon o dystiolaeth i gyfiawnhau'ch penderfyniad? Ydw ☒ Nac ydw ☐

Enw: Lisa Howell.

Swydd: Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion - Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Dyddiad: 25/09/2023 a 08/11/2023.

Anfonwch gopi o'r ffurflen sgrinio gyflawn yma at y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant.
NODWCH - mae asesiad effaith ar wahân ar gyfer y Gymraeg. Rhaid ei gwblhau hefyd yn unôl â'r cynigion.
Dim ond os yw cynigion o natur strategol neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae'n rhaid cwblhau Adran 3 *Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae diffiniad o 'natur strategol' ar gael ar dudalen 6 o'r Canllawiau Paratoi ar gyfer Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Llywodraeth Cymru.*

**ADRAN 3 – DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (PENDERFYNIADAU STRATEGOL YN UNIG)**

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau'n wahanol a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sydd wirioneddol wrth wraidd gwneud penderfyniadau allweddol.  Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr o gyfoeth cronedig, os o gwbl, gan arwain at ragor o amddifadedd materol. Mae hyn yn y pen draw yn cyfyngu ar y gallu i unigolion gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Ystyriwch y grwpiau agored i niwed ychwanegol yma a'r effaith y mae modd i'ch cynnig ei chael arnyn nhw:

| | |
|---|---|
| • Rhieni sengl a theuluoedd sy'n agored i niwed<br>• Pensiynwyr<br>• Plant sy'n derbyn gofal<br>• Pobl ddigartref<br>• Myfyrwyr<br>• Cartrefi oedolion sengl | • Pobl sy'n byw mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru<br>• Pobl â sgiliau isel o ran llythrennedd a rhifedd<br>• Pobl sydd wedi ymwneud â'r system loches<br>• Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau<br>• Pobl o bob oed sy'n gadael lleoliad gofal<br>• Pobl sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Incwm isel/[Tlodi o ran Incwm]** *(does dim modd i'r unigolyn fforddio gwneud taliadau rheolaidd fel talu biliau, prynu bwyd a dillad, talu am gludiant ac ati.)* | Positive | Nodir bod person yn byw mewn tlodi incwm cymharol os yw'n byw mewn aelwyd lle mae cyfanswm incwm o bob ffynhonnell yr aelwyd yn llai na 60.0% o incwm cyfartalog aelwydydd yn y DU (fel y rhoddir gan y canolrif).<br><br>Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o nifer o wahanol fathau o amddifadedd. Mae MALlC yn rhestru pob ardal fach (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is) yng Nghymru o 1 (y mwyaf difreintiedig) i 1,909 (y lleiaf difreintiedig).<br><br>Ar hyn o bryd mae MALlC yn cynnwys wyth maes (neu fath) o amddifadedd, sydd i gyd wedi'u llunio | Darpariaeth adeiladau ysgol newydd yn flaenorol ledled y fwrdeistref sirol a'u heffaith gadarnhaol ar yr ysgol a chymunedau ehangach, e.e. clybiau Gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg ar ôl yr ysgol mewn nifer o ysgolion.<br><br>Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn cynnig sawl math o gymorth i deuluoedd yn llwyddiannus, megis cymorth rheoli arian a chostau byw, sesiynau cymorth rhianta, sesiynau lles a gwybodaeth am glybiau cynilo. Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn cymryd rhan mewn banc bwyd wythnosol ar gyfer y gymuned a dosbarthiadau bwyd wythnosol 'rhy dda i'w gwastraffu'. |

| Anfantais economaidd-gymdeithasol | Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig? | Nodwch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma? |
|---|---|---|---|
| | | o ystod o ddangosyddion. Mae'r mynegai wedi'i adeiladu o swm pwysol o'r sgôr amddifadedd ar gyfer pob maes. Mae'r pwysoliad yn adlewyrchu pwysigrwydd y maes fel agwedd ar amddifadedd, ac ansawdd y dangosyddion sydd ar gael ar gyfer y maes hwnnw. Dyma'r meysydd:<br><br>- Incwm<br>- Gwaith<br>- Iechyd<br>- Addysg<br>- Mynediad at wasanaethau<br>- Tai<br>- Cymunedau Diogel<br>- Yr Amgylchedd Ffisegol<br><br>O ran y maes incwm, sef y ganran o’r boblogaeth sydd mewn amddifadedd incwm, sy’n cynnwys y rhai sy’n derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm, sy’n cael | |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | credydau treth, sydd ag incwm sydd 60.0% yn is na chanolrif Cymru neu sy'n geisiwr lloches â chymorth, gan ddefnyddio data MALlC, mae Rhigos yn safle 1,010 allan o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy'n ei osod ymhlith y 50.0% lleiaf difreintiedig. Mae'n safle 110 allan o 154 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Rhondda Cynon Taf. Mae Hirwaun yn safle 141 allan o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy'n ei osod ymhlith y 10.0% mwyaf difreintiedig. Mae'n safle 17 allan o 154 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Rhondda Cynon Taf.<br><br>Bydd y cynnig yma'n darparu addysg i fwy o ddisgyblion mewn adeilad ysgol newydd gyda mannau modern, hyblyg gan gynnig cyfleoedd ar gyfer darpariaeth ychwanegol ar ôl yr ysgol. Mae hyn yn cynnig amgylchedd dysgu gwell i ragor o | |

| Anfantais economaidd-gymdeithasol | Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig? | Nodwch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma? |
|---|---|---|---|
| | | ddisgyblion heb effeithio ar lefelau incwm.<br><br>Oherwydd y lleoliad a'r pellter rhwng Ysgol Gynradd y Rhigos ac Ysgol Gynradd Hirwaun, byddai pob disgybl sy'n dod o dan ddalgylch presennol Ysgol Gynradd y Rhigos yn gymwys i gael cludiant am ddim o'u cartref i'r ysgol.<br><br>Mae'r cyfleusterau yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn hygyrch i bawb yn y gymuned leol, waeth beth fo lefel eu hincwm neu ble maen nhw'n byw, a byddai'r cynnig yma'n ymestyn y ddarpariaeth i gymuned y Rhigos hefyd.<br><br>Mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun gyfleuster cymunedol pwrpasol, a ddyluniwyd yn y fath fodd fel bod mynediad i'r cyfleuster cymunedol, | |

| <u>**Anfantais economaidd-gymdeithasol**</u> | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | neuadd yr ysgol a darpariaeth toiledau ar gael yn ddiogel heb fod angen mynediad i weddill adeilad yr ysgol. Yn amodol ar y gofynion/anghenion lleol, gallai Ysgol Gynradd Hirwaun fod ar gael ar gyfer dosbarthiadau addysg oedolion, grwpiau cymunedol, cyfarfodydd cymunedol ac ati a fydd, ynghyd â'r cyfleusterau chwaraeon, yn darparu adnodd cymunedol gwerthfawr i bawb. | |
| **Cyfoeth Isel a / neu Dim Cynilion** *(digon o arian i gwrdd â chostau byw sylfaenol a thalu biliau ond heb unrhyw gynilion i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl a dim darpariaethau ar gyfer y dyfodol)* | Positive | Gan ddefnyddio data MALlC, mae Rhigos yn gyffredinol yn safle 707 allan o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy'n ei osod ymhlith y 30.0 i 50.0% mwyaf difreintiedig, ac yn safle 91 allan o 154 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Rhondda Cynon Taf. Mae Hirwaun yn safle 176 allan o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy'n ei osod ymhlith y 10.0% mwyaf difreintiedig, ac yn safle 25 allan o 154 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn | Darpariaeth adeiladau ysgol newydd yn flaenorol ledled y Fwrdeistref Sirol a'u heffaith gadarnhaol ar argaeledd lleoedd clwb brecwast.<br><br>Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn cynnig sawl math o gymorth i deuluoedd yn llwyddiannus, megis cymorth rheoli arian a chostau byw, sesiynau cymorth rhianta, sesiynau lles a gwybodaeth am glybiau cynilo. Mae Ysgol |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | Rhondda Cynon Taf.<br><br>Mae modd i deuluoedd sydd ar incwm isel neu sydd ychydig yn uwch na'r trothwy tlodi barhau i ddefnyddio'r ddarpariaeth clwb brecwast yn Ysgol Gynradd Hirwaun.<br><br>Bydd modd i'r cynnig sicrhau bod teuluoedd sy'n profi lefelau isel o gyfoeth yn cael mynediad i addysg a chyfleusterau cymunedol o ansawdd uchel. | Gynradd Hirwaun yn cymryd rhan mewn banc bwyd wythnosol ar gyfer y gymuned a dosbarthiadau bwyd wythnosol 'rhy dda i'w gwastraffu'. |
| **Amddifadedd Materol**<br>*(methu â chael mynediad at wasanaethau na chynnyrch sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd, atgyweirio / amnewid nwyddau trydanol sydd wedi torri, cadw'r cartref yn gynnes, hobïau ac ati.)* | Positive | Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau i gyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd. Bydd y cyfleusterau arlwyo newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn darparu ar gyfer unrhyw ddisgyblion o Ysgol Gynradd y Rhigos sy'n manteisio ar y prydau ysgol am ddim. | Darpariaeth adeiladau ysgol newydd yn flaenorol ledled y Fwrdeistref Sirol a'u heffaith gadarnhaol ar y nifer sy'n cael prydau ysgol am ddim.<br><br>Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn cynnig sawl math o gymorth i deuluoedd yn llwyddiannus, megis cymorth |

| **<u>Anfantais economaidd-gymdeithasol</u>** | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | Mae'r cynnig yma'n cynnig gwell cyfle i deuluoedd gael mynediad at gyfleusterau addysgol a chymunedol o ansawdd uchel. | rheoli arian a chostau byw, sesiynau cymorth rhianta, sesiynau lles a gwybodaeth am glybiau cynilo. Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn cymryd rhan mewn banc bwyd wythnosol ar gyfer y gymuned a dosbarthiadau bwyd wythnosol 'rhy dda i'w gwastraffu'. |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Amddifadedd o ran Ardal**<br>*(Lle rydych chi'n byw (ardaloedd gwledig), lle rydych chi'n gweithio (mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus)* | Positive | O ran amgylchedd ffisegol, gan ddefnyddio data MALlC, mae Rhigos yn safle 1,598 allan o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy'n ei osod ymhlith y 50.0% lleiaf difreintiedig, ac yn safle 151 allan o 154 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y Fwrdeistref Sirol. Mae Hirwaun yn safle 841 allan o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy'n ei osod ymhlith y 30.0% i 50.0% mwyaf difreintiedig, ac yn safle 84 allan o 154 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Mae'r cynnig yn rhoi cyfle i bobl sy'n byw yng nghymuned y Rhigos gael mynediad i gyfleusterau addysgol a chymunedol sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif, gan wella amgylcheddau dysgu i ddisgyblion a darparu adnoddau sy'n fwy addas ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm Newydd i | Cyflwyno'n llwyddiannus adeiladau ysgol newydd yn flaenorol ledled y Fwrdeistref Sirol, gan ddarparu cyfleusterau ac adnoddau newydd sbon i helpu i gyflwyno addysg yr 21ain ganrif. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gymru yn effeithiol. | |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol**<br>*(dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni)* | Positive | O ran Cyflogaeth, gan ddefnyddio data MALlC, mae Rhigos yn safle 805 allan o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy’n ei osod ymhlith y 30.0 % i 50.0% mwyaf difreintiedig, ac yn safle 102 allan o 154 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y Fwrdeistref Sirol. Mae Hirwaun yn safle 151 allan o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy’n ei osod ymhlith y 10.0% mwyaf difreintiedig, ac yn safle 26 allan o 154 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Mae’r cynnig yma'n sicrhau bod disgyblion yng nghymuned y Rhigos sydd angen addysg cyfrwng Saesneg yn cael yr un cyfle i gael mynediad i gyfleusterau addysgol yr 21ain ganrif, waeth beth fo’u cefndir economaidd-gymdeithasol.<br><br>Mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun gyfleusterau ychwanegol (e.e. ardal | Cyflwyno'n llwyddiannus adeiladau ysgol newydd yn flaenorol ledled y Fwrdeistref Sirol a'u heffaith gadarnhaol ar yr ysgol a chymunedau ehangach.<br><br>Er enghraifft, mae cyfleusterau cymunedol yn cael eu defnyddio’n aml iawn mewn llawer o’n hysgolion newydd gan gynnwys Ysgol Gyfun Y Pant ac Ysgol Gymuned Tonyrefail, ac mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn cynnig sawl math o gymorth i deuluoedd yn llwyddiannus, fel cymorth rheoli arian a chostau byw, sesiynau cymorth rhianta, sesiynau lles a gwybodaeth am glybiau cynilo. Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn cymryd rhan mewn banc bwyd wythnosol ar gyfer y gymuned a dosbarthiadau bwyd wythnosol 'rhy dda i'w gwastraffu'. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gemau aml-ddefnydd) mae hawl i'r disgyblion a’r gymuned ehangach eu defnyddio, gan felly gynnig mwy o gyfleoedd i ddefnyddio clybiau ar ôl ysgol/grwpiau cymunedol a gwella iechyd a lles unigolion. Byddai'r ddarpariaeth yma'n cael ei hymestyn i gymuned y Rhigos.<br><br>Mae gan y cyfleusterau newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun hefyd gyfleusterau TGCh newydd sbon a fydd o fudd i'r disgyblion a'r gymuned ehangach o ran rhoi cyfleoedd i wella llythrennedd cyfrifiadurol. | |
| **Anfantais economaidd-gymdeithasol**<br>*(Yr effaith gronnus y bydd y cynnig yn ei chael ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd(ion) gwarchodedig neu eu bregusrwydd, neu oherwydd eu bod nhw eisoes dan anfantais)* | Positive | Bydd modd i'r cynnig yma gael effaith gadarnhaol ar unigolion o bob oed a phob disgybl a rhiant/gwarcheidwad sydd ag unrhyw ofynion mynediad.<br><br>Bydd y cyfleusterau a’r ddarpariaeth adnoddau yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn rhoi rhagor o gyfleoedd i fwy o blant a myfyrwyr hŷn/aelodau’r gymuned gael mynediad i gyfleusterau newydd gwych. Ddylai'r cynnig yma ddim effeithio'n uniongyrchol ar unigolion sydd ag | Cyflwyno'n llwyddiannus adeiladau ysgol newydd yn flaenorol ledled y Fwrdeistref Sirol a'u heffaith gadarnhaol ar yr ysgol a chymunedau ehangach, gan gynnwys gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | incwm isel/cyfoeth isel neu unigolion sydd eisoes yn wynebu anfantais.<br><br>Bydd y cyfleusterau a'r ddarpariaeth gymunedol sydd eisoes ar gael yn Ysgol Gynradd Hirwaun ar gael i'r gymuned ehangach o ganlyniad i'r cynnig yma, ac felly mae modd i ragor o bobl elwa o gael mynediad i'r adnoddau newydd. | |

## ADRAN 4 - ASESIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN

Dylech ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cam sgrinio i'ch cynorthwyo i nodi effeithiau negyddol / andwyol posibl a nodi'n glir pa grwpiau sy'n cael eu heffeithio.

4.a) O ran unrhyw effaith anghymesur / negyddol / andwyol y byddai'n bosibl i'r cynnig ei gael ar grŵp gwarchodedig, nodwch y camau y byddai modd eu cymryd i leihau'r effaith yna ar gyfer pob grŵp sydd wedi'i nodi? **Atodwch gynllun gweithredu ar wahân os yw'r effeithiau'n rhai sylweddol.**

Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / andwyol ar grŵp gwarchodedig.

4.b) Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl, esboniwch pam dydyn nhw ddim yn bosibl.

Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / andwyol ar grŵp gwarchodedig.

4.c) Rhowch fanylion unrhyw ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymeg uchod, yn enwedig y ffynonellau wedi'u defnyddio i sefydlu demograffeg defnyddwyr gwasanaethau/aelodau o staff.

- Mae dadansoddiad data yn seiliedig ar ddata sy'n deillio o'r CYBLD oni nodir yn wahanol.

- Ymresymiad ansoddol wedi'i gasglu gan Garfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor a Charfan Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor.

- Darpariaeth adeiladau ysgol newydd blaenorol ledled RhCT a'u heffaith gadarnhaol ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff a'r gymuned ehangach. Mae modd gofyn am yr effeithiau cadarnhaol yma o Garfan Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor.

4.d) Rhowch fanylion am sut gwnaethoch chi ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau / aelodau o staff ar y cynigion a'r camau a gymerwyd i osgoi unrhyw effaith anghymesur ar grŵp gwarchodedig. Esboniwch sut rydych chi wedi defnyddio adborth i ddylanwadu ar eich penderfyniad.

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 2 Hydref 2023 a daeth i ben am 17:00 ar 17 Tachwedd 2023.

Cafodd cyfarfodydd wyneb yn wyneb eu trefnu gyda staff a Chyrff Llywodraethu a Chynghorau Ysgol Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd y Rhigos.

Cafodd 2 sesiwn galw heibio eu cynnal yn Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd y Rhigos hefyd er mwyn i aelodau'r cyhoedd drafod y cynnig gyda Swyddogion o Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor a rhoi unrhyw adborth yn y sesiwn.

Roedd Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad hefyd ar gael ar wefan y Cyngor ar y dudalen 'Dod yn rhan o bethau'. Roedd y Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad hefyd yn caniatáu i ymgyngoreion nodi eu dymuniad i gael gwybod am gyhoeddi Adroddiad yr Ymgynghoriad ar ôl ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor.

Roedd croeso hefyd i ymgyngoreion rannu eu barn, eu sylwadau, ac unrhyw gwestiynau yn ysgrifenedig ac ar e-bost.

Diweddarwyd yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad i gynnwys unrhyw adborth angenrheidiol.

Bydd Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn monitro'r cynnig yma.

4\. e) Ydych chi'n fodlon bod y broses ymgysylltu yn cydymffurfio â gofynion y Dyletswyddau Statudol Cydraddoldeb ac Dyletswyddau Statudol Economaidd-Gymdeithasol?

Ydw ☒ Nac ydw ☐

**ADRAN 5 – MONITRO AC ADOLYGU**

5a) Amlinellwch isod sut y bydd y cynnig yn cael ei fonitro unwaith y bydd yn cael ei weithredu:

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 2 Hydref 2023 a daeth i ben am 17:00 ar 17 Tachwedd 2023.

Cafodd cyfarfodydd wyneb yn wyneb eu trefnu gyda staff a Chyrff Llywodraethu a Chynghorau Ysgol Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd y Rhigos.

Cafodd 2 sesiwn galw heibio eu cynnal yn Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd y Rhigos hefyd er mwyn i aelodau'r cyhoedd drafod y cynnig gyda Swyddogion o Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor a rhoi unrhyw adborth yn y sesiwn.

Roedd Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad hefyd ar gael ar wefan y Cyngor ar y dudalen 'Dod yn rhan o bethau'. Roedd y Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad yn caniatáu i ymgyngoreion nodi eu dymuniad i gael gwybod am gyhoeddi Adroddiad yr Ymgynghoriad ar ôl ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor.

Roedd croeso hefyd i ymgyngoreion rannu eu barn, eu sylwadau, ac unrhyw gwestiynau yn ysgrifenedig ac ar e-bost.

Bydd Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn monitro'r cynnig yma.

5b) Erbyn pryd bydd raid i chi adolygu gwerthusiad y cynnig?

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried Adroddiad yr Ymgynghoriad ac yn penderfynu - yn seiliedig ar yr adborth - a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, diwygio'r cynnig, neu beidio â bwrw ymlaen ag ef. Os bydd y Cabinet yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig yma.

Os bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi gan roi cyfnod 28 diwrnod o rybudd ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (2il Argraffiad) (011/2018) yn ei gwneud hi'n ofynnol bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion, yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn ystyried gwrthwynebiadau yn rhai statudol, rhaid eu cyflwyno'n ysgrifenedig / drwy e-bost, a'u hanfon at y Cyngor o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cafodd yr Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried canlyniad yr hysbysiad statudol yng nghyfarfod nesaf (cyfleus) y Cabinet ac yn penderfynu ar y cynnig.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Gwrthwynebu gan ddarparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'i ymateb iddyn nhw cyn pen 7 diwrnod o ddyddiad dod i benderfyniad ar y cynnig.

Os yw Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig, caiff ei weithredu yn unol â'r dyddiad a gafodd ei roi yn yr Hysbysiad Statudol neu unrhyw ddyddiad sydd wedi'i addasu, wedi hynny. Yn achos y cynnig, fydd y dyddiad gweithredu ddim yn hwyrach na blwyddyn academaidd 2026.

5c) Pwy sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r cynnig?

Bydd swyddogion o Garfan Ysgolion yr 21ain Ganrif yng Nghyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant y Cyngor yn monitro’r cynnig.

5d) Sut bydd y canlyniadau o'r broses fonitro'n cael eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?

Mae pob prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif yn destun adolygiad ‘Gwersi a Ddysgwyd’ ar ôl ei gwblhau. Bydd deilliannau'r prosiect (cadarnhaol a negyddol) yn llywio penderfyniadau a wneir ar brosiectau yn y dyfodol.

**ADRAN 6 - ADOLYGU**

Yn rhan o'r broses Asesu Effaith rhaid cyflwyno pob cynnig sy'n dod o fewn y diffiniad o 'Benderfyniadau Allweddol' i'r Panel Adolygu.  Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch cynnig gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Arweinwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol anfonwch eich asesiad effaith at BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig.  Mae dogfen ganllawiau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb yn darparu rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses yma fel bod modd i chi ddangos sut rydych chi wedi ystyried cydraddoldeb a deilliannau economaidd-gymdeithasol.  Sicrhewch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod:

| **Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau gan Swyddogion y Panel Adolygu** |
|---|---|---|
| Cafodd cyfarfod o'r Panel Adolygu ei gynnal ddydd Mawrth 24 Hydref i drafod yr Asesiad yma o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Gwnaeth y Panel Adolygu sylwadau ar y canlynol:<br><br>- Yr angen i godi’r data a’r dystiolaeth o Adroddiad y Cabinet / Adroddiad Ymgynghori i'r adrannau nodweddion gwarchodedig unigol yn yr Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb: | 24/10/2023. | Mae'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yma wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r sylwadau a wnaed gan y Panel Adolygu a gyfarfu ddydd Mawrth 24 Hydref. |

| | | |
|---|---|---|
| - Adran Oedran - Angen tynnu sylw at nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo.<br>- Adran Anabledd – Angen cynnwys unrhyw ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu ddisgyblion ag anableddau eraill.<br>- Adran Hil – Mae'n nodi y bydd effaith gadarnhaol ond nid yw'n tynnu sylw at y rheswm.<br>- Adran Cymuned y Lluoedd Arfog - Angen data / gallai teuluoedd sy'n symud o gwmpas gael effaith.<br>- Adran Cynhalwyr Ifainc – Angen data / a fyddai symud yn broblem i rai unigolion?<br>- Er bod yr effaith hirdymor yn awgrymu deilliant cadarnhaol i ddisgyblion, dylid nodi y gallai'r symud, ar lefel unigol, gael effaith negyddol yn y tymor byr ar eu lles, yn enwedig ar gyfer disgyblion ADY oherwydd efallai na fydd rhai unigolion yn ymateb yn dda i newid. Mae modd lliniaru'r effaith negyddol yma gyda'r cymorth sydd ar gael i ddisgyblion a'u teuluoedd. | | |
| **Sylwadau'r Adran Ymgynghori** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad** |
| Yn dilyn yr ymgynghoriad a ddaeth i ben ar 17 Tachwedd, mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r ymatebion a dderbyniwyd. Derbyniwyd cyfanswm o 239 o ymatebion i'r ymgynghoriad drwy e-bost / yn ysgrifenedig, arolwg ar-lein a deiseb. | 28/11/2023. | Mae'r diweddariadau i'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys:<br><br>- Darparu data ychwanegol ar y nodwedd warchodedig 'oedran'.<br>- Darparu data ychwanegol ar y nodwedd warchodedig 'anabledd'. |

## ADRAN 6 - CRYNODEB O'R EFFEITHIAU GAN Y CYNNIG

Nodwch grynodeb o'r asesiad effaith isod. Dylai'r crynodeb yma gael ei gynnwys yn adran cydraddoldeb ac effaith economaidd-gymdeithasol templed adroddiad y Cabinet. Dylid cyhoeddi'r asesiad effaith ochr yn ochr â'r adroddiad.

I grynhoi, mae'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yma'n nodi effeithiau cadarnhaol a niwtral, a does dim effeithiau negyddol ar y nodweddion gwarchodedig.

- Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 gan sicrhau na chaiff unrhyw ddisgybl, aelod o staff, rhiant / gwarcheidwad nac aelod o'r gymuned ehangach ei atal rhag manteisio'n llawn ar y cyfleusterau newydd.

- Bydd effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg oherwydd, er bod Ysgol Gynradd Hirwaun yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, mae'n darparu gwell cyfleusterau i gynorthwyo â chyflwyno'r Gymraeg fel elfen allweddol o'r cwricwlwm ac yn unol â chynllun Cymraeg 2050 a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, wrth i ni anelu i gael addysg Gymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, i fod o'r ansawdd uchaf.

- Mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun gyfleusterau o'r radd flaenaf sy'n sicrhau bod modd darparu ar gyfer pob teulu sy'n dymuno cael lle yn yr ysgol. Gall hyn annog mwy o rieni/gwarcheidwaid i ddewis eu hysgol ddalgylch. Gall y capasiti fod o gymorth i bersonél a gwarcheidwaid y lluoedd arfog a allai symud i'r ardal ganol blwyddyn academaidd.

- Mae'r adeilad newydd a'r cyfleusterau cymunedol sydd ar gael yn dod ag effeithiau economaidd-gymdeithasol cadarnhaol ar draws yr holl grwpiau agored i niwed sydd wedi'u nodi o dan y penawdau anfantais economaidd-gymdeithasol.

## ADRAN 7 - AWDURDODI

Swyddog Arweiniol: Lisa Howell.

Enw: Lisa Howell.

Swydd: Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion - Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Dyddiad: 25/09/2023 a 08/11/2023.

Rydw i'n argymell bod y cynnig:

- Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw newidiadau ☒
- Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu ☐
- Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur y bydd y cynnig yn eu cael ar grwpiau gwarchodedig neu oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol ☐

Cymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr: Gaynor Davies.

Enw: Gaynor Davies.

Swydd: ***Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Dyddiad: 28/09/2023 a 08/11/2023.

Cyflwynwch yr asesiad effaith yma gydag unrhyw Adroddiadau i'r Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.